

# Rhannu grym mewn gwasanaethau cyhoeddus Astudiaeth achos

Prosiect 'Eich Parc'



Visit: [www.pembrokeshirecoast.org.uk](http://www.pembrokeshirecoast.org.uk)  
email: [yourpark@pembrokeshirecoast.org.uk](mailto:yourpark@pembrokeshirecoast.org.uk)



## Manylion cyswllt

Tom Moses

Parcmon Darganfyddiaeth / Cydlynnydd Eich Parc

Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro

[tomm@pembrokeshirecoast.org.uk](mailto:tomm@pembrokeshirecoast.org.uk)

07773788205

## Rhanddeiliaid allweddol:

- Staff prosiect Eich Parc
- Tîm Darganfyddiaeth

- Tîm Parcmyn Cyflawni
- Penderfynwyr Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro
- Grwpiau / mudiadau sy'n gweithio gyda'r rheini sy'n wynebu rhwystrau i ddefnyddio'r awyr agored
  - Staff - penderfynwyr
  - Staff - cyflawni
  - Defnyddwyr Gwasanaethau

## **Geiriau allweddol: meithrin gallu, dysgu yn yr awyr agored, iechyd a llesiant, grwpiau dan anfantais, Sir Benfro,**

Prosiect tair blynedd yw Eich Parc, a ariennir gan raglen Pawb a'i Le y Gronfa Loteri Fawr. Mae ganddo flwyddyn ar ôl ar waith. Arweinir y prosiect gan Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro, ac mae ganddo Grŵp Llywio sy'n cynnwys Cyngor Sir Penfro, PAVS (Cymdeithas Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Benfro), Cymunedau yn Gyntaf, Cadwch Gymru'n Daclus, Coleg Sir Benfro, PLANED, Elliots Hill Care Ltd,

Datblygwyd dull Eich Parc drwy wersi a ddysgwyd ym mhrosiect Mentro Allan a oedd ar waith 2006-10 ac a ymchwiliodd i'r ffordd orau o ennyn diddordeb gwahanol grwpiau targed mewn ymarfer corff rheolaidd yn yr awyr agored, grwpiau nad oeddynt yn ymarfer corff o'r blaen. Yr egwyddorion allweddol oedd bod angen y canlynol er mwyn ymgysylltu'n effeithiol â chleientiaid mudiad:

- 'Unigolyn allweddol' yn y mudiad hwnnw, hynny yw, aelod o staff / gwirfoddolwr sy'n rhan o'r prosiect i fod yn bwynt cyswllt. Dylai cwsmeriaid wybod amdano, ymddiried ynddo a dylai allu dylanwadu ar ddatblygiad y prosiect.
- Canolbwyntio ar 'weithgaredd carreg drws' – yn fwy hygyrch yn fwy aml, teithio'n llai hanfodol, defnyddio amser yn well, meithrin perthynas ag eraill yn lleol.
- Gweithgaredd rheolaidd – yn galluogi arweinwyr a chyfranogwyr i 'normaleiddio' ac yn rhoi'r buddion mwyaf o ran iechyd a llesiant.
- Gweithgareddau amrywiol – darparu gweithgareddau amrywiol er mwyn hybu cymhelliant a diddordeb.
- Eifen gymdeithasol / Bwyd a diod yn yr awyr agored – mae amser i gymdeithasu ag eraill yn gwneud sesiynau'n fwy atyniadol – mae bwyd yn ategu hyn yn ogystal â bod yn atyniad yn ei hun.
- Dull cyfranogol o gynllunio ac adolygu gweithgareddau gyda defnyddwyr gwasanaethau a staff – gan helpu pobl i gymryd perchnogaeth a chefnogi newid mewn ymddygiad.

- Mae perthynas gyson â staff y Parc Cenedlaethol yn bwysig i fudiadau – gan gydnabod mai ychydig iawn o fudiadau a all gynnal defnydd annibynnol o'r awyr agored yn yr hirdymor heb gymorth.

### **Manylion y mater dan sylw**

Mae'n dra hysbys y gall gweithgaredd rheolaidd yn yr awyr agored gynnig ystod eang o fuddion (iechyd a llesiant, ymarferol, datblygu sgiliau unigolion a grwpiau, dinasyddiaeth ayyb.). Mae hyn yn aml yn arbennig o berthnasol i bobl sy'n wynebu rhwystrau ychwanegol i gyfranogi.

Er hyn, yn aml nid yw gweithgaredd awyr agored yn flaenoriaeth uchel i fudiadau sy'n gweithio gyda grwpiau dan anfantais, gan ffafrio ei allanoli i 'arbenigwyr' fel staff y Parc Cenedlaethol, neu hyd yn oed dalu llawer iawn o arian i ddarparwyr gweithgareddau antur arbenigol ac ati. Yn gynyddol, mae adnoddau cyfyngedig yn atal hyn, ac nid yw gweithgaredd rheolaidd ar y sail hon yn gynaliadwy.

Amcan Eich Parc yw grymuso mudiadau i fanteisio ar yr awyr agored heb angen 'porthorion' o'r fath, gan feithrin eu gallu i wneud hynny a chaniatáu staff y Parc Cenedlaethol i roi cymorth lle mae ei angen yn fwy; yn arwain gweithgareddau mwy mentrus neu arbenigol.

### **Ceir dau gam ym model 'Eich Parc':**

#### **Cam 1 – Ymgysylltu Cychwynnol**

- Canfod prif gyswllt ('Unigolyn allweddol' posib) yn y mudiad.
- Cynllunio cychwynnol wedi'i seilio ar anghenion/galluoedd cleientiaid ac amcanion y mudiad. Cipio gwybodaeth sylfaenol ar y defnydd presennol o'r awyr agored, cryfderau a gwendidau ayyb.
- Cynnal y gyfres gyntaf o sesiynau (tua 5 diwrnod neu'r cyfwerth), i ennyn diddordeb cwsmeriaid a staff yn yr awyr agored, a cheisio dangos i benderfynwyr fod y dull yn werth yr ymdrech. Cynorthwyo staff i ddechrau arwain gweithgaredd awyr agored eu hunain, gan gynyddu faint maent yn ei arwain.



- Dechrau cysylltu'r mudiad â chyfleoedd eraill yn Sir Benfro.
- Defnyddio dull cyfranogol i gynllunio ac adolygu gweithgaredd gyda staff a chyfranogwyr.

## Cam 2 – Parhau i Roi Cymorth

- Darparu hyfforddiant i staff.
- Parhau i gysylltu mudiadau â chyfleoedd eraill.
- Darparu mynediad at rwydwaith cymorth (staff o fudiadau eraill sy'n cymryd rhan / mudiadau amgylcheddol) – mae sesiynau wedi'u hwyluso yn helpu pobl i feddwl am eu profiad, teimlo eu bod yn rhan o 'daith' neu 'fudiad'.
- Rhoi cyngor i helpu staff i ddod o hyd i leoliadau a gweithgareddau i gynnal sesiynau awyr agored.
- Digwyddiadau arbennig i helpu i wobrwyo ac annog pobl i barhau i gymryd rhan.
- Darparu mynediad at offer a chyfarpar awyr agored.
- Canfod tasgau cadwraeth ymarferol yn yr awyr agored i fudiadau gymryd rhan ynddynt os ydynt yn dymuno.
- Datblygu cyfleoedd i gyfranogwyr barhau i gymryd rhan (gan gynnwys cynllun Parcmon Ifanc y Parc Cenedlaethol).



Yn ogystal, mae'r prosiect yn ymdrechu i ddatblygu cyfranogiad grwpiau sydd heb gynrychiolaeth ddigonol yng ngwaith corfforaethol Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro, er mwyn symud yn y pen draw tuag at ddull a arweinir yn fwy gan y defnyddiwr lle bydd yn fwy realistig i rannu grym.

### **Crynhoi'r Arfer Da yn y prosiect**

Datblygwyd dull y prosiect o ganlyniad i ddulliau a oedd wedi'u profi ac o ganlyniad i ymgynghori â phartneriaid a chyfranogwyr blaenorol.

Defnyddid dulliau cyfranogol yn y gweithdai, gan gynnwys y lleisiau tawel yn ogystal â'r rhai brwdfrydig.



Mae amser, gwybodaeth a lefel medr staff y prosiect wedi bod yn ddigonol i gyfathrebu'n effeithiol â rhanddeiliaid.

Mae adnoddau priodol, megis amser, ysgrifenyddion ac ati, wedi'u darparu ar gyfer mecanweithiau cyfranogol.

Rydym wedi mynd ati i ymgysylltu â rhanddeiliaid. Mewn rhai achosion, mae hyn wedi arwain at bartneriaid yn teimlo bod ganddynt gymhelliant a grym. Mae mudiadau wrthi'n cymryd rhan yn y prosiect.

Rhoddir y grym i staff sy'n cymryd rhan benderfynu faint maent am ei gyfrannu a chynnal eu gweithgareddau eu hunain.

Gwneir penderfyniadau ar y cyd rhwng y prosiect a'r cyfranogwyr o dan amgylchiadau positif – rhannu grym yw un o'r canlyniadau.

Rhoddir adborth amserol i rhanddeiliaid sydd wedi bod yn rhan o fecanweithiau cyfranogol.

### **Gwelliannau posib yn y prosiect**

Datblygu ystod ehangach o fecanweithiau cyfranogol – yn ychwanegol i weithdai a chyfweliadau â chyfranogwyr (grwpiau ffocws, cyfarfodydd cyhoeddus).

Cynnwys rhanddeiliaid yng nghylch cyfan y prosiect – yn ddelfrydol cyn diffinio canlyniadau a cherrig milltir y cyllidwr.

Byddai'n ddymunol cynnwys ystod ehangach o rhanddeiliaid, gan gynnwys datblygu staff a phenderfynwyr eraill yn fy mudiad.

Mae bob amser lle i wella o ran cynnwys lleisiau tawel mewn mecanweithiau cyfranogol.

Canolbwyntio'n fwy penodol ar ddatblygu canlyniadau rhannu grym gyda rhanddeiliaid drwy gydol y prosiect (Cynhadledd Gydgyrchu?).

Anelu at symud yn nes at roi rheolaeth i ddinasyddion dros y prosiect – yn enwedig drwy feithrin cymhelliant, gallu a ffactorau gweithredu'r rheini sy'n dal grym o fewn y mudiad i gyflawni canlyniadau positif.

### Sut fydddech yn graddio'ch dull o gynnal y prosiect o'i gymharu â'r Egwyddorion Cenedlaethol ar gyfer Ymgysylltu â'r Cyhoedd?

Egwyddor	Gwerthusiad 1= gwael iawn: 2 = gwael: 3 = cymedrol: 4 = da: 5 = rhagorol
Cynllunnir yr ymgysylltu'n effeithiol i wneud gwahaniaeth	<p>1                      2                      3                      <u>4</u>                      5</p> <p>Mae proses dylunio prosiect yn effeithiol os oes gan gyfranogwyr gymhelliant ac adnoddau i ymgysylltu. Byddai'n ddymunol i'm mudiad fod tu cefn i'r prosiect yn fwy.</p>
Annog a galluogi pawb a effeithir i gymryd rhan, os ydynt yn dewis hynny	<p>1                      2                      3                      <u>4</u>                      <u>5</u></p>
Cynllunnir a chyflwynir yr ymgysylltu mewn ffordd amserol a phriodol	<p>1                      2                      3                      <u>4</u>                      5</p> <p>Byddai'n ddymunol cynnwys rhanddeiliaid yn gynharach yng nghylch y prosiect</p>
Gweithio gyda sefydliadau partner perthnasol	<p>1                      2                      3                      <u>4</u>                      5</p> <p>Byddai'n ddymunol cael mwy o gyfranogi (rhagweithiol) gan fudiadau awyr agored eraill / staff cyflawni'r Parc</p>
Ni fydd unrhyw jargon yn rhan o'r wybodaeth a ddarperir a bydd yn briodol ac yn hawdd i'w deall	<p>1                      2                      3                      4                      <u>5</u></p> <p>Gwybodaeth yn weddol syml at ei gilydd</p>
Ei gwneud yn haws i bobl gymryd rhan	<p>1                      2                      3                      <u>4</u>                      5</p> <p>Mae cyfle i leisiau tawel gael eu clywed – gellid datblygu hyn ymhellach</p>
Galluogi pobl i gymryd rhan yn effeithiol	<p>1                      2                      3                      <u>4</u>                      5</p> <p>Byddai'n ddymunol canolbwyntio'n fwy ar ddatblygu 'rhannu grym'</p>
Rhoddir yr adnoddau a'r gefnogaeth	<p>1                      2                      3                      <u>4</u>                      5</p>

briodol i ymgysylltu er mwyn iddo fod yn effeithiol	
Mae pobl yn cael gwybod beth yw effaith eu cyfraniad	<p>1                      2                      3                      <u>4</u>                      5</p> <p>Darparwyd adborth amserol ar ôl digwyddiadau cyfranogol ayyb – dylai gynnwys mwy am y ‘darlun mawr’</p>
Dysgu a rhannu gwersi i wella'r broses o ymgysylltu	<p>1                      2                      <u>3</u>                      <u>4</u>                      5</p> <p>Byddai'n ddymunol cynnwys defnyddwyr gwasanaethau yn fwy wrth werthuso'r prosiect fel rhan o'r canlyniadau</p>

---